

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

20/09/2006

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

Cost Parcio yn Ysbytai'r GIG The Cost of Parking at NHS Hospitals

Q9 Eleanor Burnham: Will the Minister please make a statement on the cost of parking at Welsh NHS hospitals? OAQ0981(HSS)

C9 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gost parcio yn ysbytai'r GIG yng Nghymru? OAQ0981(HSS)

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): The Welsh Assembly Government does not direct or guide NHS trusts on the issue of parking charges at hospital sites. This, and other operational matters, remains the responsibility of each NHS trust to determine on a local basis.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru yw rhoi cyfarwyddiadau i ymddiriedolaethau'r GIG ar daliadau parcio ar safleoedd ysbytai. Cyfrifoldeb ymddiriedolaethau GIG unigol yw gwneud penderfyniadau ar y materion hyn a materion gweithredol eraill yn lleol o hyd.

Bwrdd Iechyd Lleol Powys Powys Local Health Board

Q10 Glyn Davies: When does the Minister next plan to meet the chair of Powys Local Health Board? OAQ0987(HSS)

C10 Glyn Davies: Pa bryd mae'r Gweinidog yn bwriadu cyfarfod nesaf â chadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Powys? OAQ0987(HSS)

Brian Gibbons: I have no plans to meet individually with Mr Chris Mann, the chair of Powys Local Health Board, in the near future. I have regular formal meetings with all LHB Chairs at joint meetings with both NHS trust chairs and local authority leaders.

Brian Gibbons: Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i gwrdd â Mr Chris Mann, cadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Powys, yn y dyfodol agos. Byddaf yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda chadeiryddion pob bwrdd iechyd lleol mewn cyfarfodydd ar y cyd â

The next formal meeting is scheduled for November.

chadeiryddion ymddiriedolaethau'r GIG ac arweinwyr awdurdodau lleol. Trefnwyd y cyfarfod ffurfiol nesaf ar gyfer mis Tachwedd.

Triniaeth a Chefnogaeth ar gyfer pobl sydd ag ME Treatment and Support for People with ME

Q11 Lorraine Barrett: Will the Minister make a statement on the treatment and support available for people diagnosed with ME in Wales? OAQ0950(HSS)

C11 Lorraine Barrett: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y driniaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer pobl sy'n cael diagnosis o ME yng Nghymru? OAQ0950(HSS)

Brian Gibbons: We are committed to an evidence-based approach to the management of ME and chronic fatigue syndrome as well as other chronic conditions. The forthcoming Natioanl Institute for Health and Clinical Excellence review on ME and CFS in adults and children will help guide future service provision. The final guidance is expected to be issued in April 2007.

Brian Gibbons: Yr ydym yn ymrwymedig i ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at reoli ME a syndrom blinder cronig yn ogystal â chyflyrau cronig eraill. Bydd adolygiad arfaethedig y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol o ME a syndrom blinder cronig mewn oedolion a phlant yn helpu i arwain y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. Disgwylir cyhoeddi'r canllaw terfynol ym mis Ebrill 2007.

Prif Weithredwr Newydd Gwasanaeth Ambiwylans Cymru The Newly Appointed Welsh Ambulance Service Chief Executive

Q12 Jonathan Morgan: What discussions has the Minister had with the newly appointed chief executive of the Welsh ambulance service? OAQ0970(HSS)

C12 Jonathan Morgan: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r prif weithredwr sydd newydd ei benodi gan wasanaeth ambiwlans Cymru? OAQ0970(HSS)

Brian Gibbons: I held a very constructive meeting with the chief executive of the Welsh Ambulance Services NHS Trust, Mr Alan Murray, on 31 August. We discussed many of the issues around improving the service and I look forward to receiving the trust's modernisation plan when it is completed.

Brian Gibbons: Cefais gyfarfod adeiladol iawn gyda Mr Alan Murray, prif weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, ar 31 Awst. Trafodwyd llawer o'r materion yn ymwneud â gwella'r gwasanaeth ac edrychaf ymlaen at dderbyn cynllun moderneiddio'r ymddiriedolaeth ar ôl iddo gael ei gwblhau.

*Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ1012(HSS), yn ôl.
Question 13, OAQ1012(HSS), was withdrawn*

Diffyg Ariannol a Ragwelir i Ymddiriedolaeth GIG Abertawe Swansea NHS Trust Projected Deficit

Q14 Peter Black: Will the Minister make a statement on discussions he has had with Swansea NHS Trust regarding its projected deficit? OAQ0971(HSS)

C14 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau mae wedi'u cael gydag Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ynghylch y diffyg ariannol a ragwelir? OAQ0971(HSS)

Brian Gibbons: I have not had any discussions with Swansea NHS Trust regarding its potential deficit.

Brian Gibbons: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ynghylch y diffyg ariannol posibl.

Nifer y Gwelyau GIG The Number of NHS Beds

Q15 Janet Davies: Will the Minister detail the change in the number of NHS beds since 1999? OAQ0989(HSS)

C15 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog roi manylion y newid yn nifer y gwelyau GIG er 1999? OAQ0989(HSS)

Brian Gibbons: The latest available data on the number of hospital beds in Wales, including acute beds, can be found on the Assembly's Statistics Wales website. However, as many reports have repeatedly told us, delivering sustainable, improved services is not the number of beds, but how effectively those beds are used and services delivered.

Brian Gibbons: Gellir dod o hyd i'r data diweddaraf sydd ar gael ar nifer y gwelyau ysbyty yng Nghymru, gan gynnwys gwelyau aciwt, ar wefan Ystadegau Cymru'r Cynulliad. Fodd bynnag, fel y mae llawer o adroddiadau wedi nodi dro ar ôl tro, mae darparu gwasanaethau cynaliadwy, gwell yn ymwneud â pha mor effeithiol y caiff y gwelyau hynny eu defnyddio a pha mor effeithiol y caiff y gwasanaethau eu darparu ac nid yw'n cyfeirio at nifer y gwelyau sydd ar gael.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Hyrwyddo Chwaraeon Promoting Sport

Q13 Carl Sargeant: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government policy for promoting sport in Wales? OAQ0944(CWS)

C13 Carl Sargeant: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hyrwyddo chwaraeon yng Nghymru? OAQ0944(CWS)

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): Our policies for promoting sport are contained in the 'Climbing Higher: Next Steps' document. This is a major response to Health Challenge Wales and sets out our framework for action and key areas for investment so that we become a healthier, fitter Wales and a competitive force on the world stage.

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Mae ein polisiau ar gyfer hyrwyddo chwaraeon wedi'u cynnwys yn y ddogfen 'Dringo'n Uwch: Y Camau Nesaf'. Mae hwn yn ymateb pwysig i Her Iechyd Cymru ac mae'n pennu ein fframwaith ar gyfer gweithredu a'r meysydd allweddol ar gyfer buddsoddi ynddynt fel y gallwn wneud Cymru yn iachach ac yn fwy heini ac yn rym cystadleuol ar lwyfan y byd.

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ0934(CWS), yn ôl.
Question 14, OAQ0934(CWS), was withdrawn.*

Cefnogaeth i Athletwyr Ifanc Talentog Support for Talented Young Athletes

Q15 Kirsty Williams: Will the Minister

C15 Kirsty Williams: A wnaiff y

make a statement on support for talented young athletes? OAQ0905(CWS)

Alun Pugh: We need to strike the right balance between encouraging mass participation for fun and the health benefits that can be derived from sport and physical activity, and providing the right support for our talented sportsmen and sportswomen to achieve their potential and to bring success to Wales.

Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i athletwyr ifanc talentog? OAQ0905(CWS)

Alun Pugh: Mae angen i ni ddod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng annog cyfranogaeth dorfol er mwyn hwyl ac er mwyn y manteision iechyd sy'n deillio o chwaraeon a gweithgareddau corfforol, a rhoi'r gefnogaeth iawn i unigolion yn y byd chwaraeon i gyflawni eu potensial a dod â llwyddiant i Gymru.